



Agriculture & Horticulture  
DEVELOPMENT BOARD

Meri Huws  
Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol y Santes Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

24 Mehefin 2013

Annwyl Gomisiynydd,

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Ein nod yw gwneud y chwe sector nwyddau rydym yn eu cefnogi'n fwy cystadleuol a chynaliadwy.

Gan ymdrin â thua 75% o holl gynnyrch amaethyddol y Deyrnas Unedig, rydym yn cefnogi:

- i) Cig moch yn Lloegr – drwy ein hadran PBEX
- ii) Llaeth ym Mhrydain – drwy ein hadran DairyCo
- iii) Biff a chig oen yn Lloegr – drwy ein hadran EBLEX
- iv) Garddwriaeth fasnachol ym Mhrydain - drwy ein hadran HDC
- v) Grawnfwyd a hadau olew yn y Deyrnas Unedig – drwy ein hadran HGCA
- vi) Tatws ym Mhrydain – drwy ein hadran Cyngor Tatws

Mae ein dwy adran cig coch yn gweithredu ar gyfer Lloegr yn unig, ac nid ydynt yn dod dan gwmpas ein Cynllun Iaith Gymraeg. Yn sgil y nifer cyfyngedig iawn o dalwyr lefi yng Nghymru ar gyfer ein hadrannau Garddwriaeth, Tatws a Grawnfwyd/Hadau Olew, bu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, mewn llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr 2008 gadarnhau "*mai dim ond os ydyn nhw'n ymgymryd â phrosiect penodol sydd wedi'i anelu'n llwyr at y cyhoedd yng Nghymru y bydd disgwyl i'r HGCA, yr HDC a'r Cyngor Tatws i gynhyrchu gwybodaeth a deunydd yn y Gymraeg.*" Ni ymgwymerwyd ag unrhyw brosiectau o'r fath yn ystod y cyfnod adrodd o 12 mis hyd 31 Mawrth 2013.

Mae'r adroddiad ar y tudalennau canlynol yn crynhoi gweithgarwch yr AHDB a'r modd rydym wedi cydymffurfio, yn arbennig drwy ein hadran DairyCo, â'r ymrwymadau a wnaethom yn ein Cynllun Iaith Gymraeg, ac unrhyw gynlluniau gweithgaredd cysylltiedig.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'ch tîm chi dros y flwyddyn sydd i ddod er mwyn deall mwy am y Safonau Iaith Newydd, a'r hyn sydd angen inni ei wneud yn wahanol er mwyn cydymffurfio â nhw, a'r Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 newydd.

Yn gywir

**Tom Taylor**  
**Prif Weithredwr**



Agriculture & Horticulture  
DEVELOPMENT BOARD

## **Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) Adroddiad blynyddol 2012/13 i Gomisiynydd y Gymraeg**

### **Cyflwyniad**

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), ac yn arbennig ein hadran DairyCo, wrthi'n parhau i ymestyn yr amrywiaeth o adnoddau a chymorth a ddarperir, er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau laith Gymraeg a wnaed gennym yn ein Cynllun laith Gymraeg.

Mae'r modd yr ydym yn cydymffurfio'n cael ei fonitro drwy Bennaeth Cyfathrebu'r AHDB, sy'n aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol. Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol hwn i Uwch Dîm Gweithredol yr AHDB yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2013, ac fe'i cyflwynir i brif Fwrdd yr AHDB yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2013.

Mae'r prif bwyntiau canlynol yn darparu darlun cyffredinol o'r modd y mae'r AHDB wedi cydymffurfio ar lefel Gorfforaethol, ac yna ar lefel adrannol DairyCo'n benodol. Amgaeir enghreifftiau o ddeunyddiau copi caled a gellir darparu mwy os oes angen.

### **Lefel Gorfforaethol AHDB**

#### **Pwyntiau gweithredu yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i Adroddiad Monitro Blynyddol 2011/12.**

Ar 4 Hydref 2012 mi wnaethom ni ymateb i'r cais i ddarparu, erbyn 12 Hydref 2012, peth gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol. Yn benodol *"amlinellu'r 'cynlluniau i gyfieithu deunydd cyfathrebu arall ar gyfer defnyddwyr' yn ogystal â thystiolaeth eich bod yn cwrdd â'r ymrwymiad a osodwyd yn eich Cynllun laith Gymraeg i 'gynnwys un neu ragor o dudalennau rhagarweiniol yn Gymraeg a Saesneg'."*

**1. Cynlluniau i gyfieithu deunydd cyfathrebu arall gan DairyCo ar gyfer defnyddwyr**  
Gosodwyd ein cynlluniau i gyfieithu deunydd DairyCo ar gyfer y cyhoedd yn y dyfodol o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun laith Gymraeg DairyCo 2012-13, a anfonwyd, ynghyd â llythyr eglurhaol ar 4 Hydref 2012.

**2. Tystiolaeth o we-dudalennau rhagarweiniol a ddarperir yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg erbyn hyn.**

Anfonwyd dolenni i'r gwe-dudalennau perthnasol ar 4 Hydref 2012, fel isod:

- Gwefan Adran Llaeth (DairyCo) ar gyfer defnyddwyr yn Gymraeg:  
<http://wales.thisisdairyfarming.com/>
- Tudalen ragarweiniol gwefan Adran Llaeth (DairyCo) yn Gymraeg:  
<http://www.dairyco.org.uk/cymraeg/>
- Tudalen ragarweiniol ein Hadran Garddwriaeth yn Gymraeg: <http://www.hdc.org.uk/cefnidir-y-hdc>

- Tudalen ragarweiniol ein hadran Grawnfwyd a Hadau Olew yn Gymraeg: <http://www.hgca.com/content.template/100/0/Home/Home/Home.aspx?WTbannerId=welsh>
- Tudalen ragarweiniol ein Hadran Datws yn Gymraeg: <http://www.potato.org.uk/cymraeg>
- Tudalen ragarweiniol gwefan gorfforaethol yr AHDB yn Gymraeg: <http://www.ahdb.org.uk/cymru.aspx>

## Ymwybyddiaeth Rheolwyr

Hysbyswyd y Bwrdd a'r Uwch Dîm Gweithredol ynghylch ymrwymiadau'r AHDB fel rhan o'n Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Gweithredu yng Ngorffennaf 2012.

## Gwefannau

Mae Cynllun Iaith Gymraeg yr AHDB wedi'i gyhoeddi ar wefan yr AHDB ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn, wedi iddo gael ei gymeradwyo, yn cael ei gyhoeddi yn y ddwy iaith ar wefan yr AHDB hefyd.

Mae tudalennau croeso yn Gymraeg ar brif wefan yr AHDB, [www.ahdb.org.uk](http://www.ahdb.org.uk), a hefyd ar is-safleoedd adrannau'r AHDB sy'n gweithredu dros Brydain neu'r Deyrnas Unedig, sef [www.potato.org.uk](http://www.potato.org.uk), [www.hgca.com](http://www.hgca.com), [www.hdc.org.uk](http://www.hdc.org.uk), a [www.dairyco.org.uk](http://www.dairyco.org.uk)

## Recriwtio gweithwyr

Rydym yn asesu gweithleoedd a swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, ac mae deunydd recriwtio'n cael ei asesu gyda golwg ar berthnasedd yr iaith Gymraeg. Roedd 'na un swydd o'r fath yn ystod y 12 mis hyd 31 Mawrth 2013 lle'r oedd yr hysbyseb yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, fodd bynnag, nid oedd yr ymgeisydd mwyaf addas a gafodd gynnig y swydd, yn ddwyieithog.

## System sgorio

Cytunwyd ar system sgorio ar gyfer yr AHDB gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2009 ac roedd hwnnw'n dal ar waith yn ystod blwyddyn adrodd 2012/13.

## Lefel Adrannol AHDB – DairyCo

Mae tua un o bob chwech o dalwyr lefi llaeth yr AHDB yn ffermio yng Nghymru.

Mae adran laeth yr AHDB, sef DairyCo, yn ogystal â chyflenwi gweithgaredd a ariannir gan y lefi, hefyd yn cyd-gyflenwi Prosiect Effeithlonrwydd Cadwyn Gyflenwi yng Nghymru. Gwneir y prosiect hwn yn bosib drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariannir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'r prosiect yn cadw at Bolisi Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Mae tîm AHDB/DairyCo Cymru'n cynnwys saith aelod staff, gyda phedwar o'r rheiny'n gwbl rugl yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r tîm yn gwbl gyfarwydd â gweithredu'n ddwyieithog ac maent bob amser yn rhoi ystyriaeth i ofynion dwyieithrwydd. Mae Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg arfaethedig AHDB/DairyCo ar gyfer 2013/14 yn cynnwys gweithgareddau fydd yn parhau i ddatblygu a gwella sgiliau ac ymwybyddiaeth y tîm.

Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn darparu darlun cyffredinol o'r hyn a gyflawnwyd gan ein hadran DairyCo yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu a gytunwyd ar gyfer 2012/13, gan adeiladu ymhellach ar y cynnydd a wnaed yn 2011/12 ac yn y blynyddoedd blaenorol.

## **Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau**

- Gweithdrefnau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Marchnata i nodi gofynion cyfredol o ran y Gymraeg ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau newydd perthnasol.

## **Darparu Gwasanaethau**

- Mae'r holl ddigwyddiadau Cymreig yn parhau i ddarparu deunydd a gwasanaethau dwyieithog. Mae hyn hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth yn y brif Sioe Da Byw a gynhelir yn yr NEC yn Lloegr.
- Darparodd Cynhadledd DairyCo fywgraffiadau, agenda, ffurflenni adborth a chofrestru dwyieithog.
- 

## **Gwasanaethau a ddarparwyd ar ein rhan gan drydydd parti**

- Ymgwymerir ag amryw o weithgareddau hyrwyddo gan sefydliadau trydydd parti, i helpu i hyrwyddo'r ddarpariaeth o adnoddau addysgol dwyieithog a gynigir gan DairyCo ar-lein.
- Mae dwy astudiaeth gwmpasu benodol ar gyfer Cymru wedi'u cwblhau.

## **Hysbysebu, Llenyddiaeth a Argraffir, Deunydd Cyhoeddusrwydd**

- Mae Godro, cylchlythyr y diwydiant llaeth yng Nghymru'n gwbl ddwyieithog, gyda'r holl gynnwys yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg
- Darperir unrhyw ddatganiadau i'r wasg yn Gymraeg os gwneir cais
- Anfonir llythyrau eglurhaol dwyieithog gydag adroddiadau perthnasol yn ôl y galw.

## **Cyfathrebu ac Addysg**

- Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn delio'n awtomatig ag unrhyw ohebiaeth/ddeunydd cyfathrebu yn Gymraeg
- Mae'r cynnwys Cymraeg yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd ar brif wefan DairyCo, sef [www.dairyco.org.uk](http://www.dairyco.org.uk) a gwefan DairyCo ar gyfer defnyddwyr sef [www.thisisdairyfarming.com](http://www.thisisdairyfarming.com). Mae cynlluniau ar droed hefyd i gyfieithu deunydd arall ar gyfer defnyddwyr.
- Mae adnoddau addysg ar-lein dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i gael eu hyrwyddo a'u lawrlwytho o wefan yr AHDB a ariannir ar y cyd sef [www.foodfactoflife.org.uk](http://www.foodfactoflife.org.uk).

## **Staffio**

- Mae tîm AHDB/DairyCo Cymru'n cynnwys pedwar aelod staff sy'n gwbl rugl yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Roedd hysbyseb recriwtio diweddar yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

## **Trefniadau mewnol**

- Mae cynlluniau marchnata'n parhau i danlinellu'r ffaith bod angen rhoi ystyriaeth i Gynllun yr Iaith Gymraeg ar gyfer gwasanaethau a chynnyrch lle bo'n berthnasol.

**Mehafin 2013**



Meri Huws  
Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff  
CF10 1AT

24 June 2013

Dear Commissioner,

The Agriculture and Horticulture Development Board operates across the UK. Our purpose is to make the six commodity sectors we support more competitive and sustainable.

Covering about 75% of total agricultural output in the United Kingdom (UK), we support:

- vii) Pig meat in England – through our BPEX division
- viii) Milk in Great Britain (GB) – through our DairyCo division
- ix) Beef and lamb in England – through our EBLEX division
- x) Commercial horticulture in GB – through our HDC division
- xi) Cereals and oilseeds in the UK – through our HGCA division
- xii) Potatoes in GB – through our Potato Council division

Our two red meat operating divisions cover England only and are outside the scope of our Welsh Language Scheme. The very limited number of levy payers based in Wales for our Horticulture, Potatoes and Cereals/Oilseeds divisions prompted the Welsh Language Board in a letter dated 12 December 2008 to “confirm that the HGCA, the Horticulture Development Company and the Potato Council will only be expected to produce information and material in the Welsh language if they are undertaking a specific project aimed solely at the public in Wales.” No such projects were undertaken during the 12 month reporting period to 31 March 2013.

The report on the following pages summarises AHDB’s compliance and activity, particularly through our DairyCo division, in line with the commitments we make in our Welsh Language Scheme and associated activity plans.

We look forward to working with your team over the year ahead to understand more about the new Welsh Language Standards and what we need to do differently in order to comply with them and the new Welsh Language Measure (Wales) 2011.

Yours sincerely

**Tom Taylor**  
**Chief Executive**

## Agriculture and Horticulture Development Board Annual report 2012/13 to the Welsh Commissioner

### Introduction

The Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB) and, in particular our DairyCo division, continues to make progress on extending the range of resources and support we provide to deliver the Welsh Language commitments we make in our Welsh Language Scheme.

Our compliance is monitored through the AHDB Head of Communications who sits on the Senior Executive Team. This annual report was presented to the AHDB Senior Executive Team at its meeting on 14 June 2013 and will be presented to the main AHDB Board at its meeting on 30 July 2013.

The following top line points provide an overview of compliance by AHDB at a Corporate level and then at the specific DairyCo divisional level. We enclose some example hard copy materials and more are available on request.

### AHDB Corporate Level

#### Action points requested by the Welsh Language Commissioner in response to the 2011/12 Annual Monitoring Report

On 4 October 2012 we responded to the request to provide, by 12 October 2012, some additional information and evidence. Specifically *“outline the ‘plans to translate other consumer facing communication’ as well as evidence that you are meeting your commitment set out in your Welsh Language Scheme to ‘include one or more introductory pages in both Welsh and English’.”*

#### 3. Plans to translate other DairyCo consumer facing communication

Our plans to translate consumer facing DairyCo materials in the future were contained within the DairyCo Welsh Language Scheme Action Plan 2012-13 which was sent with a covering letter on 4 October 2012.

#### 4. Evidence of introductory web pages now provided in Welsh, in addition to English.

Links to the relevant web pages were sent on 4 October 2012, as below:

- Our Milk Division's (DairyCo) consumer facing website in Welsh: <http://wales.thisisdairyfarming.com/>
- Our Milk Division's (DairyCo) introductory web page in Welsh: <http://www.dairyco.org.uk/cymraeg/>
- Our Horticulture Division's introductory page in Welsh: <http://www.hdc.org.uk/cefndir-y-hdc>
- Our Cereals and Oilseed Division's introductory page in Welsh: <http://www.hgca.com/content.template/100/0/Home/Home/Home.msp?WTbannerId=welsh>
- Our Potato Division's introductory page in Welsh: <http://www.potato.org.uk/cymraeg>
- The AHDB corporate website introductory page in Welsh: <http://www.ahdb.org.uk/cymru.aspx>

## **Management Awareness**

The AHDB commitments within our Welsh Language Scheme and Action Plan were communicated to the Board and Senior Executive Team in July 2012.

## **Websites**

The AHDB Welsh Language Scheme is published on the AHDB website in Welsh and English language versions. This annual report, once accepted, will also be published in both languages on the AHDB website.

Welsh language welcome pages are on the main AHDB website, [www.ahdb.org.uk](http://www.ahdb.org.uk), and also on the sub-sites of the AHDB divisions which have a GB or UK remit – [www.potato.org.uk](http://www.potato.org.uk), [www.hqca.com](http://www.hqca.com), [www.hdc.org.uk](http://www.hdc.org.uk), and [www.dairyco.org.uk](http://www.dairyco.org.uk).

## **Employee recruitment**

We assess workplaces and jobs where the ability to speak Welsh is essential or desirable and recruitment materials are assessed for Welsh language relevance. There was one such post during the 12 months to 31 March 2013 where the ability to speak Welsh was advertised as desirable, however the most suitable candidate who was offered the post, was not bilingual.

## **Scoring system**

An AHDB scoring system was agreed with the WLB in 2009 and remained in operation during the 2012/13 reporting year.

## **AHDB Divisional level – DairyCo**

Approximately one sixth of AHDB's milk levy payers farm in Wales.

AHDB's dairy division, DairyCo, in addition to the delivery of levy funded activity also jointly deliver a Supply Chain Efficiency Project within Wales. This project is made possible through the Rural Development Plan for Wales 2007-2013 which is funded by the Welsh Government and the European Agricultural Fund for Rural Development. The project adheres to the Welsh Government's Welsh Language Policy.

The AHDB/DairyCo Wales team includes seven members of staff, four of which are fully competent in written and spoken Welsh. This team is fully experienced in delivering their work bilingually and always take into consideration bilingual requirements. The proposed AHDB/DairyCo 2013/2014 Welsh Language Action Plan contains activities to continue to develop and improve the skills and awareness of the team.

The following bullet points provide a top line overview of what has been achieved by our DairyCo division against the agreed 2012/13 Action Plans, further building on the progress achieved in 2011/12 and in earlier years.

## **Policies, legislation and initiatives**

- Procedure built into Marketing Plan for identifying current Welsh language requirements for relevant new products and services.

## **Delivering services**

- All Welsh events continue to provide bilingual material and services, This also includes provision at the main Livestock Show held at the NEC in England.
- The DairyCo Conference provided bilingual biographies, agenda, feedback and registration forms.
- 

## **Services undertaken on our behalf by third parties**

- A range of promotional activities are undertaken by 3<sup>rd</sup> party organisations to help promote the DairyCo Welsh bilingual education resource online offering.
- Two Wales specific scoping studies have been completed.

## **Advertising, Printed Literature, Publicity Materials**

- Godro, the Wales dairy newsletter is fully bilingual with all content appearing both in English and Welsh.
- All press releases are provided in Welsh on request.
- Bilingual covering letters accompany relevant reports as and when required.

## **Communication & Education**

- Welsh speaking staff automatically deal with Welsh correspondence/general communication.
- Welsh language content consistently refreshed on both the main DairyCo website of [www.dairyco.org.uk](http://www.dairyco.org.uk) and the DairyCo consumer facing website of [www.thisisdairyfarming.com](http://www.thisisdairyfarming.com). Plans are also in place to translate other consumer facing communication.
- Welsh bilingual online education resources for both primary and secondary schools continue to be promoted and downloaded from the AHDB jointly funded website: [www.foodafactoflife.org.uk](http://www.foodafactoflife.org.uk).

## **Staffing**

- The AHDB/DairyCo Wales team includes four staff which are fully competent in written and spoken Welsh
- Recent recruitment advertisement noted that the ability to speak Welsh was desirable.

## **Internal arrangements**

- Marketing plans continue to highlight that consideration must be given to the Welsh Language Scheme for services and products where relevant.

June 2013